Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn Maesyfed

**Maesyfed**
**Llanandras**
**Powys**
**LD8 2SS**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn Maesyfed

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn Maesyfed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 49 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 40 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 16% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | Medi 2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 24/06/2014 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 13/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn Maesyfed yn lle dymunol ac anogol i ddysgu. Mae’r pennaeth yn arwain tîm bach o athrawon sy’n llawn egni, y mae llawer ohonynt ar ddechrau eu proffesiwn. Mae staff yr ysgol yn ymdrechu i wella pob agwedd ar fywyd ysgol, ac mae perthnasoedd gweithio proffesiynol ar draws yr ysgol yn gryfder. Mae disgyblion yn awyddus i ddod i’r ysgol, mae rhieni’n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol, ac mae llywodraethwyr yn chwarae rhan helaeth mewn sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel a hapus i fod.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn ardderchog ac maent yn aml yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru, gan ddechrau ar eu trothwy, ac yn mwynhau dysgu ac ymarfer yr iaith yn arbennig. O ganlyniad, daw disgyblion yn siaradwyr, yn ddarllenwyr ac yn ysgrifenwyr hyderus, ac mae eu brwdfrydedd yn llifo i’r gymuned, lle mae busnesau lleol yn awr yn awyddus i ymarfer yr iaith hefyd. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau eithriadol o gadarnhaol at ddarllen ac yn gwneud cynnydd cyflym yn datblygu eu medrau darllen. Maent yn defnyddio medrau digidol yn dda ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fod yn egnïol, yn enwedig yn amgylchedd awyr agored naturiol ac eang yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau a gwybodaeth fathemategol ond nid ydynt yn defnyddio’r medrau hyn yn ddigon aml yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Nid ydynt bob amser yn adeiladu’n systematig ar fedrau llythrennedd na medrau creadigol ddigon i wneud y cynnydd y gallent ei wneud. Mae athrawon yn defnyddio holi’n dda ac yn rhoi arweiniad priodol i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu yn ystod gwersi.

Mae’r ysgol yn datblygu ei dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd, ond megis dechrau datblygu y mae hyn, ac mae trefniadau i fonitro cynnydd disgyblion dros gyfnod yn llai cadarn. Mae athrawon yn cynnwys syniadau disgyblion wrth gynllunio profiadau dysgu ac wrth ddewis sut i ddysgu yn ystod gwersi. O oedran ifanc, mae disgyblion yn awyddus i wneud yn dda. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr huawdl ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n ofalus wrth gwblhau gwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddysgu mewn amrywiaeth ddigon eang o ffyrdd i’w galluogi i fod yn ddysgwyr annibynnol. Nid ydynt yn dysgu mewn modd digon manwl ar draws y cwricwlwm.

## Argymhellion

A1 Cryfhau capasiti arwain er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau gwella

A2 Datblygu addysgu i sicrhau cynnydd effeithiol ar gyfer yr holl ddisgyblion, a phrofiadau dysgu sy’n galluogi disgyblion i archwilio cysyniadau mewn modd digon manwl

A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â gwaith ei chorff llywodraethol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn y dosbarth Derbyn gyda medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol ar y lefel ddisgwyliedig. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau gyda medrau islaw'r lefel honno. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn llawer o feysydd y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion ieuengaf yn sgwrsio'n hapus ag ymwelwyr wrth eu dangos o gwmpas eu hystafell ddosbarth, ac mae disgyblion hŷn yn trafod eu gwaith yn hyderus. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae disgyblion yn siarad yn glir mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn ymateb yn briodol i bobl eraill gan ddefnyddio ystod gynyddol soffistigedig a thechnegol o eirfa.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen. Mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn ac yn defnyddio'u medrau darllen yn dda mewn agweddau eraill ar y cwricwlwm. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i'w helpu i wneud synnwyr o eiriau anghyfarwydd, ac yn defnyddio medrau dod i gasgliad yn gymwys i archwilio cymeriadau yn y llyfrau y maent yn eu darllen. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr mynegol ac wedi datblygu cariad at ddarllen. Maent yn mwynhau dewis llyfrau yn y llyfrgell sy'n cynnwys adnoddau da ac yn ysgogol. Yn aml, mae disgyblion yn darllen cystal yn Gymraeg ag y maent yn Saesneg. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn darllen yn hyderus ac yn gywir o sgriptiau dramâu Cymraeg mewn sesiynau darllen grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn creu brawddegau syml i ddisgrifio draig ac yn cofnodi priodoleddau siapiau maent yn eu harchwilio yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu bywgraffiadau, storïau ac adroddiadau newyddion. Maent yn ysgrifennu'n dda, ar y cyfan, gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg i ychwanegu diddordeb at eu gwaith, ac yn cynnwys geirfa a ddewiswyd i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a 6 yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n gwneud stori dda ac yn cysylltu hyn â'r llyfrau y maent wedi'u darllen. Ar draws yr ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o ramadeg yn llai cadarn ac maent yn aml yn gwneud camgymeriadau wrth sillafu geiriau pwysig.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn datblygu medrau Cymraeg sylfaenol, gan gyfarch eu hathrawon ac ymwelwyr yn fywiog. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio sylwadau Cymraeg yn eu hasesiadau cyfoedion, ac erbyn Blwyddyn 4, yn darllen testunau Cymraeg sylfaenol yn gywir, gan wneud cynigion sy'n ddichonadwy yn ffonetig â geiriau anghyfarwydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth fathemategol gadarn wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn disgrifio'r elfennau tebyg a'r gwahaniaethau rhwng set benodol o siapiau ac yn trin ffyn lolipop, gan ychwanegu a

thynnu ochrau i newid un siâp i fod yn siâp arall. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn datrys problemau rhif gan ddefnyddio adio a thynnu, ac erbyn Blwyddyn 6, maent yn casglu ac yn cynrychioli data yn hyderus wrth gyfrifo'r elw a wnaed yn y ffair Nadolig, gan arddangos y canlyniadau mewn graffiau llinell. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar yr un lefel ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio rhaglenni animeiddio yn effeithiol i greu ffilmiau byr. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau i ysgrifennu erthyglau ar gyfer papur newydd yr ysgol, sef 'The Radnor Reader'. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn creu cyflwyniadau dwyieithog ar eu hoff arwyr ac arlunwyr lleol o Gymru. Maent yn trin testun a delweddau yn fedrus i greu dyluniadau atyniadol ar gyfer cyhoeddiadau aml-gyfrwng. Mae bron pob un o'r disgyblion yn storio ac yn adalw eu gwaith yn effeithlon.

Mae disgyblion yn dechrau datblygu eu creadigrwydd a'u mynegiant. Mae'r disgyblion ieuengaf yn peintio hunanbortreadau ac yn efelychu arddull arlunwyr o Gymru wrth greu delweddau o'r ardal. Mae disgyblion hŷn yn cymysgu lliwiau ac yn defnyddio amrywiaeth o offer a chyfryngau fel sialc a chyllyll palet i greu gwahanol effeithiau yn eu gwaith. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn cyfuno'u gwybodaeth am hanes Cymru â'u dychymyg wrth ysgrifennu chwedlau gwerin. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn dysgu chwarae offerynnau wedi'u tiwnio ac yn mwynhau sesiynau dawns lle maent yn datblygu eu dealltwriaeth o'r modd y mae symud yn ffurf o fynegiant. Yn yr awyr agored, mae disgyblion yn adeiladu cuddfannau ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a heriau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i fireinio eu medrau artistig na'u creadigrwydd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn reidio beiciau ac yn dangos balans, ystwythder a rheolaeth dda. Mae disgyblion hŷn yn dysgu pasio a derbyn yn ystod chwaraeon tîm. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn archwilio ffyrdd o symud eu cyrff i greu dawns, gan adeiladu ar y medrau cynnar y maent yn eu dysgu i ddatblygu patrymau a dilyniannau a symud ar y cyd. Mae disgyblion hŷn yn arbennig yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon fel rygbi tag, pêl-rwyd, a rhedeg traws-gwlad.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r staff ymroddgar yn yr ysgol yn canolbwyntio ar les disgyblion bob dydd. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol y maent yn eu meithrin gyda nhw yn nodwedd gref o'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, gan wybod bod staff yno bob amser i'w helpu. Maent yn datblygu gwerthoedd cadarn a synnwyr cryf o gyfrifoldeb, ac o ganlyniad, mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus tuag at staff, ffrindiau a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn trin ei gilydd yn garedig. Mae disgyblion hŷn yn rhyngweithio'n gadarnhaol â disgyblion iau, er enghraifft wrth chwarae gyda'i gilydd yn ystod amser cinio. Wrth greu 'tŷ chwilod', mae'r disgyblion hŷn yn helpu'r disgyblion iau i strwythuro'r 'adeilad' ac yn gofyn cwestiynau sy'n creu

ymdeimlad o ddiben a chyffro. Mae disgyblion iau yn datblygu strategaethau ar gyfer hunanreoleiddio trwy ystod fuddiol o brofiadau, ac wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn defnyddio'r strategaethau hyn pan fydd angen, gan wella'u lles, eu perthnasoedd a'u cyfranogiad.

Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o'u rolau fel dinasyddion cyfrifol, sy'n dylanwadu'n weithredol ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill yn y gymuned a thu hwnt. Maent yn rhannu eu syniadau ar sut i wella diogelwch a chynhwysiant, ac yn cefnogi busnesau lleol trwy brynu cynnyrch wedi'i dyfu yn yr ardal. Maent yn cefnogi'r gymuned leol, er enghraifft trwy hysbysebu digwyddiadau elusennol a dyddiadau pwysig yn y calendr ym mhapur newydd yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cyfraniadau sylweddol sy'n dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Maent yn ymgysylltu ag ystod effeithiol o brosesau democrataidd ac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn gwneud penderfyniadau wrth recriwtio staff newydd. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn frwdfrydig, ac mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu eu syniadau a'u barn eu hunain am fywyd yr ysgol trwy gynrychiolwyr grŵp. Mae'r Cyngor Ysgol yn gwella'r ystod o offer chwaraeon sydd ar gael, ac mae'r 'Criw Cymraeg' yn annog gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft trwy system wobrywo. Mae'r Pwyllgor Eco yn hynod ddylanwadol yn datblygu syniadau i godi ymwybyddiaeth am gynaliadwyedd. Maent yn trefnu cystadlaethau celf ac yn cwblhau ystod o brosiectau ailgylchu a chompostio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pam mae gwneud dewisiadau iach yn bwysig, ac yn deall effaith bwyta diet cytbwys ac yfed dŵr. Ar y cyfan, maent yn gwneud dewisiadau iach yn ystod y diwrnod ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, ac yn archwilio effeithiau ymarfer corff ar eu cyrff. Maent yn gwneud y gorau o'r amser a dreulir yn yr awyr agored yn nhir helaeth yr ysgol sydd ag offer da, yn gwneud ymarfer corff ar y llwybr cadw'n heini, yn chwarae gemau ar yr iard ac yn mwynhau natur yn yr ardal goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Maent yn awyddus i ddod i'r ysgol ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb a'u prydlondeb. Yn ystod gwersi, mae disgyblion yn dal ati i ganolbwyntio a dangos diddordeb. Maent yn gwrando'n dda, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau yn briodol, ac yn barod iawn i siarad am eu dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bach pan roddir cyfle iddynt, gan gyfrannu at dasgau a rhannu eu syniadau. Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol, ac mae ychydig o ddisgyblion yn cysylltu eu dysgu â'u profiad yn llwyddiannus. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn cymharu siapiau 2D â siapiau 3D tebyg y maent yn gyfarwydd â nhw. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cysylltu gwybodaeth hanesyddol newydd â digwyddiadau presennol a diwylliannau modern.

Yn ystod gweithgareddau dan gyfarwyddyd, mae disgyblion iau yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn gwneud ychydig o ddewisiadau am eu dysgu, fel dewis y deunyddiau y maent yn gweithio gyda nhw, a sut maent yn cofnodi eu gwaith. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut maent yn dysgu, i ddeall diben eu dysgu ac archwilio eu dysgu yn annibynnol yn gyfyngedig. Maent yn

gwneud sylwadau defnyddiol ar waith ei gilydd, ond nid ydynt yn gosod eu nodau eu hunain yn ddigon aml, ar y cyfan.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn datblygu perthnasoedd anogol â disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad, ac o ganlyniad, mae'r amgylchedd dysgu yn dawel a dymunol.

Pan fydd yr addysgu'n effeithiol, mae cyflymdra gwersi yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae athrawon yn defnyddio holi agored yn bwrpasol, yn mynd i'r afael â chamdybiaethau ac yn addasu eu haddysgu i gynorthwyo disgyblion yn briodol. Maent yn rhannu disgwyliadau clir, sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o beth i'w wneud, ac yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu meddyliau. Er enghraifft, pan fyddant yn trafod enghreifftiau o storïau a ysgrifennwyd ganddynt, maent yn cymharu plot chwedlau Cymreig â bywyd heddiw.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm yr ysgol sy'n canolbwyntio ar gysyniadau fel perthyn, ysbrydoli a 'chynefin'. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu profiadau dysgu dilys trwy feysydd dysgu a phrofiad (MDPh). Maent yn ystyried yr ardal, a hanes a diwylliant Cymru yn ofalus wrth gynllunio unedau gwaith. Mae disgyblion iau yn archwilio gwahanol dirweddau Cymru, a disgyblion hŷn yn dysgu am dirnodau yn agosach at gartref.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio dilyniannau o wersi sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo agweddau ar eu gwybodaeth a'u medrau i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn datblygu eu dealltwriaeth o empathi wrth greu draig ddychmygol sy'n newydd i'r ysgol. Mae disgyblion hŷn yn ystyried y cysylltiad rhwng yr angen am ocsigen a datgoedwigo byd-eang. Mae athrawon yn cynllunio'n arbennig o dda i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol i gefnogi a gwella'u gwaith. Mae athrawon yn dechrau datblygu gwybodaeth disgyblion am gysyniadau mathemategol yn systematig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd yn ddigon cydlynus i sicrhau nad oes unrhyw fylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Wrth i athrawon ddatblygu eu gwybodaeth am y cwricwlwm, maent yn dechrau cynllunio profiadau dysgu perthnasol ar gyfer disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut maen nhw'n dysgu. Er enghraifft, ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn dewis ymgorffori meddalwedd dylunio yn eu gwaith am yr ardal leol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn galluogi disgyblion i archwilio eu dysgu'n annibynnol, cydweithio na herio'u hunain yn ddigon aml. Er bod athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau ar gyfer disgyblion, yn aml, nid yw'r profiadau hyn yn galluogi disgyblion i archwilio cysyniadau'n ddigon manwl.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu'r ysgol yn hynod effeithiol o ran cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd, a chynnydd cyflym yn aml, yn eu dysgu. Maent yn defnyddio holi'n dda ac yn modelu iaith yn effeithiol i'w cynorthwyo. Yn ystod sesiynau ymyrraeth, maent yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ddiweddar, mae athrawon wedi rhoi dull cyson ar waith i asesu medrau disgyblion, ac maent yn datblygu dulliau asesu ffurfiannol defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Mae'r dull sgwrsio am ddysgu ar y cyd yn galluogi disgyblion i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu, ac awgrymu sut gall disgyblion eraill wella'u gwaith yn ystod gwersi.

Mae athrawon yn gweithio gydag ysgolion partner i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd wrth ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, at ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer cynnydd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd meddyglar i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Maent yn archwilio'r dirwedd, yn dysgu am fynyddoedd, afonydd, dinasoedd a phentrefi. Maent yn cydweithio ag arlunwyr o Gymru, yn dathlu diwrnodau arbennig ac yn ysgrifennu am ddinasyddion dylanwadol o Gymru. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddysgu Cymraeg. O ganlyniad, maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi. Er enghraifft, yn eu gwersi ar siâp, mae disgyblion yn y dosbarth ieuengaf yn cyfeirio atynt fel 'triongl' a 'petryal'. Maent yn datblygu gallu sylweddol i ddarllen Cymraeg ac yn llunio darnau diddorol o waith ysgrifenedig. Mae'r ymrwymiad cryf gan staff a disgyblion i gyfathrebu yn Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad iaith ar draws yr ysgol, ac yn y gymuned ehangach.

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o berthnasoedd ac amrywiaeth mewn gwersi a thrwy addoli ar y cyd. Maent yn ystyried hawliau'r plentyn wrth ddatblygu cyfeillgarwch a delio â phroblemau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion brofi a dysgu am yr amrywiaeth ledled Cymru, ac yn fyd-eang.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu yn amgylchedd awyr agored yr ysgol, sydd wedi'i ddatblygu'n dda. Maent yn defnyddio natur yn dda yn eu cynllunio, ac o bryd i'w gilydd, yn darparu cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae disgyblion yn codi afalau o'r berllan, yn ymweld â ffatri gwasgu a photelu, ac yn paratoi sudd afal i'w werthu yn y ffair Nadolig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn creu ethos cynnes a thosturiol lle caiff pawb eu gwerthfawrogi a'u hannog, ac ystyrir lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth uchel. Mae pob un o'r disgyblion a'r staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn yr amgylchedd anogol hwn. Mae'r lefelau uchel o gynhwysiant yn cyfrannu at ymddygiad rhagorol disgyblion, ac yn eu cynorthwyo i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol, a'u cynnal.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i ddilyn ffordd iach o fyw yn dda. Mae staff yn annog disgyblion i ddod â chinio maethlon o gartref a gwneud dewisiadau iach yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn egnïol trwy amrywiaeth eang o adnoddau sydd ar gael yn ystod amseroedd egwyl, clybiau amser cinio, gwersi nofio a sesiynau addysg gorfforol. Yn ystod

sesiynau lles, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarferion buddiol, sy'n eu galluogi i ymarfer strategaethau ar gyfer rheoli eu hymddygiad eu hunain.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn glir a bod trefniadau i nodi anghenion ychwanegol disgyblion yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynllunio amrywiaeth o ymyriadau gwerthfawr sy'n lleihau rhwystrau rhag dysgu yn sylweddol ar gyfer disgyblion unigol. Caiff llywodraethwyr eu cynnwys yn bwrpasol mewn gwerthuso profiadau disgyblion. Maent yn monitro ansawdd y dysgu a'r profiadau gyda disgyblion ac yn gwneud newidiadau i ddarpariaeth, pan fydd angen. Mae staff yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn rheolaidd i sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth â ffocws sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Mae ymagwedd yr ysgol at gynnwys disgyblion mewn gwneud penderfyniadau yn gryfder. Mae safbwyntiau disgyblion yn rhan annatod o welliant ysgol, ac yn aml yn dylanwadu ar newid. Maent yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ag afiaith, ac yn mynd ati i hyrwyddo parch am y gymuned a'r byd ehangach. Mae capteiniaid timau mewn gweithgareddau chwaraeon yn cymryd eu rôl o ddifri, ac mae disgyblion sy'n ohebwyr newyddion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha wybodaeth i'w rhannu â'r gymuned leol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn mwynhau eu hymweliad preswyl yn fawr lle maent yn cael ymdeimlad o antur a mwy o gyfleoedd i drosglwyddo medrau arwain. Mae athrawon yn cynnwys syniadau disgyblion am yr hyn y maent eisiau'i ddysgu yn eu cynllunio. Fodd bynnag, yn ystod gwersi, caiff gweithgareddau eu gor-gyfarwyddo ac nid yw disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol cystal ag y gallent.

Mae'r ysgol yn cefnogi lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff ar draws yr ysgol yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda nhw, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u bregusrwydd unigol. Mae'r ysgol yn darparu ystod ystyriol o gymorth lles, gan sicrhau dechrau cadarnhaol i'r diwrnod yn y clwb brecwast poblogaidd. Mae disgyblion yn mwynhau rhannu brecwast gyda disgyblion eraill, a'r cyfle i fod yn greadigol a mynegiannol yn gynnar yn y bore. Mae staff yn annog disgyblion i rannu eu gofidiau a'u pryderon yn sensitif ac yn sicrhau eu preifatrwydd. O ganlyniad, mae disgyblion wedi ymlacio ac yn llawn cyffro i ddechrau eu diwrnod.

Mae gweithredoedd addoli dyddiol ar y cyd yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r ysgol archwilio ffydd a dathlu cyflawniadau. Mae staff a disgyblion yn myfyrio ar werthoedd ac yn ystyried sut gallant adlewyrchu'r rhain yn eu bywydau eu hunain. Mae'r ysgol yn trefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar y gymuned leol a phobl yn fyd-eang, fel newid hinsawdd.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwbl ymwybodol o'r angen i aros yn ddiogel ar-lein ac yn defnyddio ystod o strategaethau yn llwyddiannus i'w hamddiffyn eu hunain. Mae prosesau'r ysgol i hyrwyddo cyfraddau presenoldeb cadarnhaol yn effeithiol. Mae ei threfniadau i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arwain tîm o athrawon a staff cymorth sydd wedi creu amgylchedd hapus a diogel lle mae gan bawb ymdeimlad cryf o berthyn. Gyda'i

gilydd, maent wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau uchel a chreu cymuned lle caiff pawb eu hannog, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfeillgar a brwdfrydig.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae ei phartneriaeth â rhieni yn gryfder, ac mae rhieni'n hynod werthfawrogol o'r lefelau uchel o gyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol, a'r wybodaeth werthfawr a gânt am les a chynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn sicrhau lles ar gyfer pob un o'r disgyblion trwy amrywiaeth o fesurau pwrpasol a theilwredig, y mae llawer ohonynt yn mynd i'r afael ag effaith anfantais gymdeithasol. Mae'r pennaeth yn gweithio'n dda ag asiantaethau allanol i sicrhau gwelliant ar gyfer plant bregus, er enghraifft i sicrhau cyfle teg i bob un o'r disgyblion elwa ar brofiadau cyfoethog y cwricwlwm. Mae'n gyrru diwygio anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus, gan sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu'n diwallu anghenion disgyblion yn dda ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn gwneud trefniadau pwrpasol i werthuso gwaith yr ysgol. Ar y cyd ag athrawon, mae'n monitro effaith gwaith gwella yn rheolaidd trwy gylch o fyfyrio ac adolygu, sy'n llywio cynlluniau ar gyfer gwella yn y dyfodol. Mae strategaeth yr ysgol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus, ac mae ei ffocws ar wella darllen wedi cael effaith sylweddol ar fedrau disgyblion, yn ogystal â'u mwynhad o ddarllen yn yr ysgol ac yn y cartref. Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos ag athrawon i adolygu a mireinio cwricwlwm yr ysgol yn ystod y cyfnod pontio i'r Cwricwlwm i Gymru. Gyda'i gilydd, maent wedi ystyried anghenion, diddordebau a dyheadau'r disgyblion, a chyfoeth y profiadau a'r hanes sydd ar gael yn eu hardal gyfagos. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn dechrau archwilio dulliau cynllunio ar gyfer gwneud cynnydd mewn dysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod pob un o'r staff yn manteisio ar gyfleoedd i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau allanol i lywio arfer a rhannu deilliannau eu hymchwil bersonol. Maent yn gweithio'n agos ag ysgolion partner i ddatblygu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion, er enghraifft wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol bob amser yn canolbwyntio'n ddigon agos ar wella ansawdd ac ystod y dulliau addysgu.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol a nodwyd. Mae targedau'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau cenedlaethol a safonau proffesiynol. Mae'r pennaeth yn adolygu cynnydd gyda staff addysgu yn rheolaidd, ac mae athrawon yn ymateb yn dda i'r cymorth a gânt. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, gan ddatblygu diwylliant o welliant parhaus gyda thîm angerddol o athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn. Yn dilyn newidiadau sylweddol i arweinyddiaeth a staff addysgu, mae hi wedi canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu dealltwriaeth athrawon o'r cwricwlwm, ac o ganlyniad, maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu agweddau ar hyn. Fodd bynnag, mae'r capasiti llai mewn arweinyddiaeth ar draws yr ysgol ar hyn o bryd wedi arwain at gyfleoedd cyfyngedig i fynd i'r afael ag agweddau pwysig yn ansawdd yr addysgu sy'n effeithio ar ansawdd y dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod effeithiol yn ei gefnogaeth i'r ysgol. Caiff llywodraethwyr eu cynnwys yn rheolaidd mewn prosesau hunanwerthuso, gan ymgymryd â gweithgareddau monitro mewn partneriaeth â'r pennaeth, yr athrawon a'r disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac maent yn dechrau herio arweinwyr yn llwyddiannus fel ffrind beirniadol, ac yn awgrymu newidiadau i gefnogi anghenion dysgwyr yn well. Mae'r gwaith partneriaeth rhwng llywodraethwyr a disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn rhoi amser i gasglu barn disgyblion ar fywyd yr ysgol a'u profiadau dysgu, ac yn eu cynorthwyo pan fydd angen newid.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro cynlluniau gwariant a'u heffaith yn effeithlon. Mae'r ysgol yn dyrannu ei chyllid grant yn effeithiol i sicrhau profiad teg i bob un o'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion i roi ystod o fesurau ar waith i fynd i'r afael ag effaith tlodi, er enghraifft defnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgu trwy grwpiau ymyrraeth.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. At ei gilydd, mae staff a llywodraethwyr yn cynnal diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/04/2023